

Enw	Swyn y Sul
Uwch gynhyrchydd	Gareth Iwan Jones
Slot	10:00-12:00 ar foreau Sul. Mae'r rhaglen yn darlledu gydol y flwyddyn.
Nifer	Cyfresi o 4-12 rhaglen
Hyd	2 ran o 56 munud yr un
Pris	£800 - £840 y bennod
Briff	Mae Swyn y Sul yn allweddol i gynnal ein cynulleidfa ar ddydd Sul. Mae'n dilyn rhaglen Heledd Cynwalac yn ein harwain ni at ddarlledu prynhawn Sul Radio Cymru, gan apelio'n arbennig at ein cynulleidfaoedd craidd, traddodiadol. Rhaglenni syml yw'r rhain, gydag un cyflwynydd yn dewis dwy awr o gerddoriaeth ysgafn (clasurol yn bennaf) sy'n gydnaws â sain y Sul ar Radio Cymru. Yn 2026-27 fe glywson ni gyfresi byrion gan 3 chyflwynydd sy'n enwau newydd i Swyn y Sul: Iwan Teifion Davies, Georgia Ruth a Geraint Cynan. Mae disgwyl i'r cyflwynydd ddod ag arbenigedd i'r rhaglen ond gan osgoi arddull uchel ael: beth yw'r straeon personol neu gefndir perthnasol y tu ol i'r dewisiadau; sut ma rhannu hoffder y cyflwynydd o'r gerddoriaeth gyda'r gwrandawyr? Gall y rhaglenni gynnwys darnau lleisiol unigol, darnau cerddorfaol neu gorawl a darnau offerynnol unigol. Mae angen gofal penodol gyda cherddoriaeth Saesneg, ac angen trafod unrhyw ddefnydd o gerddoriaeth Saesneg gyda'r uwch gynhyrchydd wrth gynllunio. Mae'n bosib cynnwys rhai eitemau cerddorol sy'n gyson drwy'r gyfres hefyd (hy, 'features' radio) ond ni fydd unrhyw gyfweiliadau, gwesteion nag eitemau llafar estynedig yn y gyfres. Os hoffech chi i ni ystyried eich cais ar gyfer adeg penodol o'r flwyddyn yna plis wnewch chi gynnwys hynny yn y cais yn Proteus. Os ydych chi'n cynnig enw cyflwynydd sydd heb gyflwyno Swyn y Sul yn y gorffennol yna sicrhewch eu bod wedi cytuno mewn egwyddor os

	gwelwch yn dda. Fe fyddwn ni efallai yn gofyn am beilot byr gan gyflwynywr newydd er mwyn cynorthwyo gyda'r broses gomisiynu.
--	---